# *AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU*

## DATGANIAD O GYFRIFON 2010-2011

## C Y N N W Y S


| | RHIF TUD. |
|---|---|
| Rhagair Esboniadol gan y Trysorydd | 1-6 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon | 7 |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 8-16 |
| Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu | 17-23 |
| Datganiadau Ariannol Craidd | 24-27 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd | 28- 55 |
| Cyfrif y Gronfa Bensiynau gyda Nodiadau | 56-57 |
| Adroddiad yr Archwilydd | 58-59 |
| Atodiad: Newidiadau Blwyddyn Flaenorol – Troi i'r Safonau IFRS | 60-62 |

# RHAGAIR ESBONIADOL

1. Mae'r cyfarwyddyd gweithredol ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru i'w gael yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Tân ac Achub a luniwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn ceisio ehangu rôl y Gwasanaethau Tân ac Achub o safbwynt atal, addysgu ac ymwneud â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethau, gan sicrhau'r un pryd na pheryglir eu gallu i ymladd tanau.

Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru yn paratoi cynlluniau gweithredu blynyddol er mwyn lleihau'r risgiau a gwella gwasanaethau, gyda phwyslais cynyddol ar atal ac addysgu. Mae'r Gwasanaeth yn weithgar gyda'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, enghraifft o hyn yw nifer yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gwblhaodd y Gwasanaeth, sef 36,905 yn 2010/11 o'i gymharu â 32,802 yn 2009/10. Mae'r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau brys eraill, er enghraifft rheolir y portffolio eiddo gan Adran Rheoli Cyfleusterau ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru, ac mae Ystafell Reoli'r Gwasanaeth Tân bellach mewn adeilad sy'n cael ei rannu gyda'r Heddlu yn Llanelwy. Mae'r Awdurdod hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o brosiectau eraill sy'n adlewyrchu amcanion y Fframwaith Cenedlaethol, er enghraifft Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc sy'n cael ei redeg gan ddiffoddwyr tân pan nad ydynt ar ddyletswydd, gyda changhennau trwy'r gogledd; prosiect y Ffenics sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda phobl ifanc yn yr ardal; ac Addysg Diogelwch ar y Ffyrdd mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru trwy nifer o ddigwyddiadau 'Effeithiau Marwol' trwy'r gogledd.

Mae Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn gyhoeddiad sy'n ofynnol dan y gyfraith; a'i ddiben yn bennaf yw darparu gwybodaeth glir ynghylch sefyllfa a pherfformiad ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru am y flwyddyn ariannol 2010-11.

2(a). Dyma'r datganiadau, a'u dibenion:-

(i) **Datganiad o gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon**

Mae hwn yn gosod cyfrifoldebau priodol yr Awdurdod a'i swyddogion am lunio a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

(ii) **Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Mae'r datganiad hwn yn darparu adolygiad parhaus o effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol a'r systemau rheoli risg, a hynny er mwyn rhoi sicrwydd ynglŷn â'u heffeithiolrwydd a/neu i lunio cynllun gweithredu rheolaeth i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodir.

(iii) **Datganiad Polisïau Cyfrifyddu**

Mae hyn yn nodi'r egwyddorion a'r polisïau sy'n sail i gyfrifon yr Awdurdod.

(iv) **Datganiad ar y Symudiad mewn Cronfeydd**

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd a ddelir gan yr awdurdod, wedi eu dadansoddi yn 'gronfeydd i'w defnyddio' (h.y. y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol) a chronfeydd eraill wrth gefn. Mae'r Gwarged neu'r (Diffyg) ar y llinell Darpariaeth Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r awdurdod, a dangosir rhagor o fanylion yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n rhaid eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol a ariennir gan gyfraniadau gan y chwe Awdurdod Cyfansoddol. Mae'r Cynnydd / Gostyngiad Net cyn y llinell Trosglwyddiadau i'r Cronfeydd a Glustnodwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol statudol cyn unrhyw drosglwyddiadau a wnaed gan yr Awdurdod yn ôl disgresiwn i neu o'r cronfeydd a glustnodwyd.

(v) **Y Cyfrif Cynhwysfawr Incwm a Gwariant**

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost cyfrifyddu yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu gan gyfraniadau. Mae gwariant yr Awdurdod yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn unol â'r rheoliadau; gallai hyn fod yn wahanol i'r gost cyfrifyddu. Dangosir sefyllfa'r cyfraniad yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r datganiad yn dangos bod gwarged o £28.577m (2009/10, diffyg o £52.553m) yn y flwyddyn oherwydd y newidiadau i gostau pensiwn gwasanaeth blaenorol oherwydd y newid o'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) i Fynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Y newidiadau yn y cyfrifon oherwydd y newid yn y modd y cânt eu trin oedd – roedd costau Gwasanaeth Blaenorol a gredydwyd i'r llinell gostau Annosranedig yn £24.056m (2009-10 £0.084 dr) a'r Cynnydd Actiwaraidd yn £17.156m (2009-10 Colled Actiwaraidd £44.87m).

(vi) **Y Fantolen**

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r ymrwymiadau a gydnabyddir gan yr Awdurdod fel yr oeddent ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymiadau) yn cael eu cyfateb gan y cronfeydd wrth gefn sydd gan yr awdurdod. Adroddir ynghylch y cronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf yn gronfeydd y gellir eu defnyddio, h.y. y cronfeydd y gallai'r Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaeth, yn ddibynnol ar yr angen i gadw lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (e.e. y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf na ellir ei defnyddio ond i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Mae'r ail gategori yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a colledion heb eu gwireddu (e.e. y Gronfa Ailwerthuso), lle na fyddai symiau ond yn dod ar gael i ddarparu gwasanaethau petai'r asedau'n cael eu gwerthu; a chronfeydd sy'n dal gwahaniaethau o ran amseru a ddangosir yn y llinell Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn 'Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu dan y rheoliadau'.

Gwerth net yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2011 oedd £179.684m o ddiffyg, gostyngiad yn y diffyg o £28.577m dros y sefyllfa addasedig ar 31/3/2010, yn bennaf oherwydd gostyngiad yn yr Ymrwymiad Pensiynau.

(vi) **Datganiad Llif Arian**

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian a chyfwerth ag arian yr awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r awdurdod yn creu ac yn defnyddio arian a chyfwerth ag arian trwy gategoreiddio llif arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n codi o'r gweithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Awdurdod yn cael eu hariannu trwy gyfraniadau ac incwm grant neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod. Mae'r gweithgareddau buddsoddi yn dangos y graddau y mae'r all-lifiadau arian wedi eu gwneud ar gyfer adnoddau sydd â'u bwriad o gyfrannu at y modd y gall yr Awdurdod ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r llifiadau arian sy'n codi o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol wrth ragweld ceisiadau o lifiadau arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r Awdurdod.

(vii) **Cyfrif y Gronfa Bensiynau**

Ar 1 Ebrill 2007 newidiodd y trefniadau sy'n ymwneud â Chynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gadw Cyfrif Incwm a Gwariant a Datganiad Asedau Net ar wahân ar gyfer yr holl drafodion hyn.

2(b). Mae'r Datganiad Symudiad ar Gronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a Chyfrif y Gronfa Bensiynau yn cael eu cefnogi gan nodiadau sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol. Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cwrdd â gofynion y Cod Ymarfer ar Gyfrifydda Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010-11 (y Cod) a'r Cod Ymarfer Cyfrifyddau Gwerth Gorau (BVACOP), a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), a'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a Diwygiadau 2007 i'r Rheoliadau.

## 3. CRYNODEB O'R FLWYDDYN ARIANNOL 2010-2011

### (i) Gwariant Refeniw 2010-2011

Cymeradwywyd cyllideb o £32,093,400 ar gyfer y flwyddyn gan Aelodau'r Awdurdod. Yn nodyn 21, ceir rhagor o fanylion am y gwariant gweithredol, sef gwariant gwirioneddol yr Awdurdod heb y newidiadau cyfrifyddu. Roedd y gwariant gwirioneddol yn is na'r hyn y cyllidwyd amdano, ac roedd modd i'r Awdurdod neilltuo £223k i gronfa gyffredinol a fydd yn darparu rhywfaint o sicrwydd bod arian ar gael i gynorthwyo mewn blynyddoedd i ddod ac a fydd yn golygu y gall yr Awdurdod dynnu o'r cronfeydd hyn yn hytrach na gorfod gofyn am ardollau ychwanegol. Mae'r tabl isod yn dangos y prif feysydd lle cafwyd gorwariannau, a'r tanwariannau a ddefnyddiwyd yn eu herbyn.

| ***Gorwariannau*** | ***£'000*** | ***Tanwariannau*** | ***£'000*** |
|---|---|---|---|
| Costau cludiant | 40 | Costau Gweithwyr | 241 |
| Incwm Cynllunio rhag Argyfyngau | 50 | Ariannu Dyled | 313 |
| Diffygion Masnachu | 37 | TG a Chyfathrebu | 333 |
| Incwm Galwadau Gwasanaethau Arbennig | 51 | Swyddog Disgyblu | 60 |
| Incwm o Gyrsiau Hyfforddi | 69 | | |
| Offer yr Ochr Weithredol | 73 | | |
| Ffioedd Proffesiynol ar Brosiectau Cyfalaf a ataliwyd | 404 | | |
| Cyfanswm | 724 | | 947 |
| **Tanwariant Net** | | | **223** |

Cyflwynwyd adroddiad manylach am weithgarwch ariannol y flwyddyn i'r Awdurdod Tân ar 20 Mehefin 2011, ac mae ar gael ar wefan y Gwasanaeth Tân (www.gwastan-gogcymru.org.uk).

Derbyniodd yr Awdurdod nifer o grantiau refeniw gan Lywodraeth y Cynulliad yn ystod y flwyddyn i hyrwyddo amryw o ymgyrchoedd yng Ngogledd Cymru. Cyfanswm y grantiau a dderbyniwyd oedd £1.78m (£2.17m 2009-10). Ar gyfer y prosiectau canlynol yr oedd rhai o'r grantiau mwyaf a dderbyniwyd:

- Y Ffenics £172k
- Ymyriadau £487k
- Lleihau Llosgi Bwriadol £276k
- Dimensiynau Newydd £293k
- Firelink £56k
- Cydnerthu £134k

### (ii) Gwariant Cyfalaf 2010-2011

Yn ystod y flwyddyn, gwariodd yr Awdurdod £6.322m ar brosiectau cyfalaf fel a ganlyn:-

| | *£ '000* |
|---|---|
| **Adeiladau** | |
| TGCh Gorsaf Dân y Rhyl | 6 |
| Prynu Tir – Nefyn | 32 |
| Ailfodelu Betws y Coed | 1 |
| Datgymalu Gorsaf Radio | 1 |
| Swyddfeydd Diogelwch Sirol Llangefni | 296 |
| Datgymalu Tyrau Hyfforddi | 49 |
| Gorsaf Dân Newydd Wrecsam | 401 |
| Mân Waith Adeiladu | 595 |
| Cydymffurfio â deddf anabledd a chydraddoldeb | 828 |
| Tai Hyfforddi | 75 |
| Ffïoedd Proffesiynol wedi eu codi ar Refeniw | -404 |

| | |
|---|---|
| **Cerbydau ac Offer** | |
| Tendrau Dŵr | 2,139 |
| Cerbydau Ysgafn | 251 |
| Cerbydau a Uwchraddiadau eraill | 672 |
| Cychod pŵer | 50 |
| Gwisgoedd Offer Amddiffyn Personol | 803 |
| TG ac offer eraill | 527 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT CYFALAF** | **6,322** |

Cafwyd gwariant llai nag a ragwelwyd yn rhaglen gyfalaf 2010-2011 oherwydd oedi ar brosiect Wrecsam ac ar yr amserlen adeiladu ar gyfer y Tendrau Dŵr. Caiff y cynlluniau hyn eu dwyn ymlaen i 2011-2012.

Mae'r ffïoedd proffesiynol a gafwyd yn 2010-2011 a 2009-2010 ar brosiectau cyfalaf nad ydynt bellach yn bosibl wedi cael eu trin fel costau ofer, ac mae'r rhaglen gyfalaf wedi cael ei hailgredydu gyda'r ffïoedd, a'r gwariant wedi ei drosglwyddo i'r Gwariant Refeniw.

Dyfarnwyd arian grant i'r Awdurdod gan Lywodraeth y Cynulliad, sef £251k, ac fe'i defnyddiwyd i uwchraddio a gwella'r cyfleusterau hyfforddi mewn nifer o eiddo, a chyfrannu at offer TG i'w ddefnyddio ar gynlluniau penodol.

Dan y Cod Darbodus, gall yr Awdurdod ariannu'r rhaglen gyfalaf yn unol â pha ddull bynnag o ariannu sydd fwyaf cost-effeithiol. Yn 2010-2011, ariannwyd y rhaglen gyfalaf yn bennaf gan fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac Awdurdodau Lleol eraill (£6,033k), grantiau (£251k) a Derbyniadau Cyfalaf (£38k)

(iii) **<u>Y Fantolen 2010-2011</u>**

Pennir oes ased i'r holl adeiladau, cerbydau ac offer sy'n eiddo i'r Awdurdod Tân, a chânt eu dibrisio ar sail yr oes ddisgwyliedig honno; dangosir hyn yn Nodyn 9 yn y Datganiadau Ariannol Craidd. Mae'r cynnydd mewn benthyca yn dibynnu ar nifer o ffactorau; swm y gwariant cyfalaf i'w ariannu trwy fenthyca a'r ddyled fenthyca i'w had-dalu fel rhan o'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Dyled fenthyca'r Awdurdod ar 31 Mawrth 2011 oedd £19.39m.

Cyflwynwyd IAS19 (sef FRS17 gynt) i sicrhau bod datganiadau ariannol yn adlewyrchu gwerth teg asedau ac ymrwymiadau sy'n codi o rwymedigaethau buddion ymddeol cyflogwr, ynghyd ag unrhyw ariannu cysylltiedig. Codir cost llawn ar y cyfrif refeniw am gost gyfredol gwasanaeth, ynghyd â nodyn ar y Fantolen i adlewyrchu ymrwymiad pensiwn yr Awdurdod. Yr ymrwymiad pensiwn amcangyfrifedig ar gyfer Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2011 yw £197m, sef gostyngiad o £29m. Mae'r gostyngiad oherwydd y newid yn y modd y mae costau pensiwn gwasanaeth blaenorol yn cael eu trin, sef o sail y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) i sail Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI).

(iv) **<u>Llif Arian</u>**

Caiff yr Awdurdod ei gyllido gan gyfraniadau gan chwe Awdurdod Lleol Cyfansoddol, derbynnir y cyfraniadau'n fisol, a chânt eu defnyddio i gyllido gwariant.

(v) **<u>Darpariaethau a Chronfeydd Wrth Gefn</u>**

Mae gan yr Awdurdod nifer o ddarpariaethau i ddiwallu sawl ymrwymiad i ddod yn sgîl digwyddiadau yn y gorffennol. Y balans ar ddechrau'r flwyddyn oedd £0.65m, ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd yn £0.48m. Roedd y symudiad yn y flwyddyn o ganlyniad i drosglwyddo arian yn y Ddarpariaeth Bensiynau i gronfa wedi ei chlustnodi i ymorol am gostau pensiynau yn y dyfodol – mae hyn yn unol â'r gweithdrefnau cyfrifyddu cywir. Disgwylir defnyddio'r darpariaethau yn 2011-2012, a byddant yn ddigon i gwrdd â'r costau disgwyliedig.

Pasiwyd deddfwriaeth sy'n caniatáu i Awdurdodau Tân yng Nghymru gadw cronfeydd wrth gefn, a dyma'r ail flwyddyn y gellid gweithredu hyn. Rhoddwyd arian o'r neilltu mewn cronfa wrth gefn gan mai peth doeth i'r Awdurdod yw adeiladu Cronfa Gyffredinol, a'r disgwyl yw mai'r meysydd lle y caiff ei ddefnyddio fydd:-

- unrhyw gostau pontio sy'n ymwneud â'r Adolygiad o Ofal Swyddogion;
- yn erbyn cynnydd tanwydd na gyllidwyd ar ei gyfer;
- ymorol am unrhyw ymrwymiadau amodol a allai godi; ac
- ymorol am gostau unrhyw ymddeoliadau cynnar ar sail effeithlonrwydd.

Yn nodiadau 15 ac 16 i'r datganiadau ariannol craidd, cynhwysir rhagor o fanylion am y darpariaethau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir.

(vi) **<u>Costau Ariannu Cyfalaf</u>**

Y taliadau a godwyd ar gyfrifon refeniw'r gwasanaeth i adlewyrchu cost yr asedau sefydlog a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau oedd £2.037m. Swm amcanol yw hwn am ddibrisio, a gwneud addasiad ar y balans diwedd flwyddyn fel nad effeithir ar y cyfraniadau sydd eu hangen i ariannu'r gwasanaeth. Y gost wirioneddol i'r gwasanaeth am gyfalaf ariannu yw £424k o log benthyciad, a £1,544k o Leiafswm Darpariaeth Refeniw a Darpariaeth Refeniw Gwirfoddol.

## 4. Y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (Safonau IFRS)

(i) Cefndir

Yn adroddiad y gyllideb 2007 gan Drysorlys EM, cyhoeddwyd y byddai cyrff y sector cyhoeddus yn mabwysiadu Safonau IFRS. Nod hyn oedd 'dod â manteision o ran cysondeb a chymharu rhwng adroddiadau ariannol yn yr economi fyd-eang, ac i ddilyn arferion gorau'r sector preifat' *(Trysorlys EM, adroddiad Economic and Fiscal Strategy Report and Financial Statement and Budget, Mawrth 2007).* Mae'r GIG, y gwasanaeth prawf a chyrff llywodraeth ganolog eisoes wedi mabwysiadu'r Safonau IFRS yn eu cyfrifon 2009/10.

Mabwysiadwyd Safonau IFRS gan Awdurdodau Lleol ychydig yn ddiweddarach, a dyma'r rhan fawr olaf o'r sector cyhoeddus i fabwysiadu'r IFRS yn llawn wrth baratoi cyfrifon 2010-2011.

(ii) Ardrawiad gweithredu'r Safonau IFRS

Roedd gweithredu'r Safonau IFRS yn golygu newidiadau sylfaenol i'r ffordd y mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi a'u cyflwyno. Mae'r newidiadau i'r cyfrifon yn golygu newidiadau ac ychwanegiadau sylweddol i'r Egwyddorion a'r Polisïau Cyfrifyddu. Mae'r prif newidiadau rhwng cyfrifon a baratoir gan reolau Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (UK GAAP) o'u cymharu â'r Safonau IFRS fel a ganlyn:-

- trefn a chynnwys y Datganiadau Ariannol craidd.

- Ailddosbarthu asedau – mae Asedau Sefydlog diriaethol yn cael eu hailddosbarthu'n Eiddo, Peiriannau ac Offer a Chyfarpar. Mwy o bwyslais ar gyfrifyddu cydrannau. Dosbarth newydd o asedau a ddelir ar werth dan Asedau Cyfredol.

- Menter Cyllid Preifat (PFI) – Caiff yr asedau a'r ymrwymiadau dan y cynlluniau PFI eu cynnwys yn y Fantolen, ond o dan y rheolau cyfrifyddu blaenorol roeddent wedi eu heithrio (y newid yn ofynnol gan y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) 2009 cyn rhoi'r Safonau IFRS ar waith yn llawn yn 2010/11).

- Prydlesau – Adolygwyd y trefniadau prydlesau, a dygwyd nhw i'r Fantolen/tynnwyd nhw o'r Fantolen yn achos prydlesau. Adolygwyd trefniadau eraill er mwyn asesu p'un ai ydynt yn cynnwys sylwedd prydles.

- Buddion Gweithwyr – Rhoddir cyfrif am dâl gwyliau a buddion tymor byr eraill ar sail cronedig, felly sefydlwyd credydwr yn hyn o beth, gyda chronfa negyddol yn ei erbyn.

- Grantiau a Chyfraniadau Llywodraeth Ganolog – Credydir y rhain i'r Cyfrif Refeniw wedi eu derbyn (oni bai fod amodau) a'u trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Dangosir y newidiadau i'r cyfrifon dan Arferion UK GAAP, sy'n ofynnol wrth droi i'r cyfrifon sy'n cydymffurfio â Safonau IFRS, yn fanwl yn yr Atodiad i'r Datganiad o Gyfrifon 2010/11.

Yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol Tro Cyntaf IFRS1, mae'r Datganiad o Gyfrifon 2010-2011 yn cynnwys tair Mantolen a nodiadau fel a ganlyn:-

- 31 Mawrth 2011
- 31 Mawrth 2010 (cymharol)
- 1 Ebrill 2009 (troi i Safonau IFRS)

## 5. GWYBODAETH YCHWANEGOL

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon hyn ar gael gan Drysorydd yr Awdurdod ym Modlondeb, Conwy. Hefyd, mae gan aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb hawl statudol i ddarllen y cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau. Hysbysebir yn y wasg leol, ac ar wefan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (www.gwastan-gogcymru.org.uk) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (www.conwy.gov.uk) bod y cyfrifon ar gael i'w darllen.

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O GYFRIFON

**CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD**

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod:

- wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn gywir ac i sicrhau bod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yr Awdurdod hwn, y cyfryw swyddog yw'r Trysorydd
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon

**TYSTYSGRIF Y CADEIRYDD**
**DATGANIAD O GYFRIFON 2010/2011**

Cymeradwywyd y cyfrifon archwiliedig yng nghyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân Gogledd Cymru.

ARWYDDWYD:________________________________________ DYDDIAD:_____________

***Cadeirydd Awdurdod Tân Gogledd Cymru***

**CYFRIFOLDEBAU'R TRYSORYDD**

Y Trysorydd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod). Mae'n ofynnol i'r Datganiad o Gyfrifon gyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2011.

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon, mae'r Trysorydd wedi:

- dethol polisïau cyfrifyddu addas, ac yna wedi eu defnyddio'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifiadau a oedd yn rhesymol a darbodus;
- cydymffurfio â Chod awdurdodau lleol.

Mae'r Trysorydd hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfoes;
- cymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac anghysonderau eraill.

**TYSTYSGRIF Y TRYSORYDD**
**DATGANIAD O GYFRIFON 2010/2011**

Paratowyd Datganiad o Gyfrifon yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a Diwygiadau i'r Rheoliadau 2010.

ARWYDDWYD:________________________________________ DYDDIAD:______

**K W FINCH CPFA IRRV**

***Trysorydd Awdurdod Tân Gogledd Cymru***

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

2010/2011

## 1. CYFLWYNIAD

Llywodraethu corfforaethol yw'r system o gyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae llywodraethu corfforaethol yn ymwneud â'r ffordd y mae materion yr Awdurdod yn cael eu trin gan aelodau etholedig a swyddogion, a sut rydym yn ymwneud â rhanddeiliaid a phartneriaid.

Er mwyn dangos llywodraethu da, rhaid i'r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y Fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* a gyhoeddwyd yn 2001 gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifydda (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE).

Mae'r sicrwydd llywodraethu sydd yn y datganiad hwn wedi eu strwythuro o amgylch pob un o'r egwyddorion craidd sydd yn y Fframwaith uchod.

### 2. Cwmpas Cyfrifoldeb

Mae Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru yn gyfrifol am sicrhau y caiff ei fusnes ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo'n briodol, a'i ddefnyddio'n economaidd, effeithlon ac effeithiol. Hefyd, mae dyletswydd ar yr Awdurdod o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd mae ei swyddogaethau yn cael eu harfer, gydag ystyriaeth i gyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government.*

Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r cod, a hefyd yn cwrdd â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, fel y'u diwygiwyd o safbwynt datganiad ar reolaeth fewnol.

### 3. Diben y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli'r Awdurdod a'i weithgareddau y mae'n atebol amdanynt i'r gymuned, yn cysylltu â hi ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at gyflwyno gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw, ac mae wedi ei chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly, ni all ond darparu sicrwydd o effeithiolrwydd sy'n rhesymol ac nid yn llwyr. Mae system yr Awdurdod o reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi ei chynllunio:

- adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i lwyddiant polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod;
- gwerthuso tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny;
- gwerthuso'r ardrawiad petaent yn cael eu gwireddu; a
- rheoli'r rheini yn economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Fframwaith Llywodraeth wedi ei roi mewn lle yn yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiad o gyfrifon.

## 4. Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn disgrifio elfennau allweddol y systemau a'r prosesau sy'n rhan o drefniadau llywodraethu'r Awdurdod yn unol â chwe egwyddor llywodraethu corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yn ein cod, ac sy'n cynnwys:-

- Ffocws ar ddiben yr Awdurdod a'i ganlyniadau i'r gymuned, a chreu a gweithredu gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru.
- Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir.
- Hyrwyddo gwerthoedd yr Awdurdod, a dangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad ac ymarweddiad.
- Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw, sy'n agored i gael eu craffu'n effeithiol a rheoli risg.
- Datblygu galluoedd a medrau'r aelodau a'r swyddogion i fod yn effeithiol.
- Ennyn perthynas â phobl yr ardal a rhanddeilaid eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus sy'n gadarn.

## 5. Adolygiad o Effeithiolrwydd

Mae'n gyfrifoldeb ar yr Awdurdod i gynnal, o leiaf unwaith y flwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei Fframwaith Llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Yn goleuo'r adolygiad o effeithiolrwydd, bydd gwaith y Grŵp Gweithredol a'i swyddogion o fewn yr Awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol a hefyd sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac adolygiadau eraill a gynhaliwyd.

Fel darparwr gwasanaethau Archwilio Mewnol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae adran Archwilio Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu i'r Awdurdod, trwy ei Bwyllgor Archwilio, farn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd llywodraethu'r sefydliad, rheoli risg a'r trefniadau rheoli.

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan ei archwilwyr mewnol ynglŷn â'u cynnydd o'i gymharu â'r cynllun archwilio blynyddol sy'n darparu manylion y lefelau sicrwydd y gellir eu gosod yn erbyn y systemau a'r prosesau amrywiol sydd yn eu lle.

Wrth gynnal ac adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu yr Awdurdod, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:-

**A. Mae'r Awdurdod yn gweithredu strwythur pwyllgora sy'n ymwneud â'r meysydd allweddol wedi eu gosod yn gydnaws â'i amcanion strategol, gyda Chylch Gwaith sef:-**

<u>Yr Awdurdod Tân ac Achub</u>

Ar yr Awdurdod Tân ac Achub, mae 28 o aelodau etholedig o'r 6 Awdurdod Unedol sydd yn rhan o ardal y Gwasanaeth Tân ac Achub yn unol â Gorchymyn Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995.

Ceir diffiniad o rôl yr Awdurdod yn ei Reolau Sefydlog:

- Cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân ac Achub yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, yn benodol Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, a'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 – a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006, a'r Cynllun Cyfuno 1995.

- Cytuno ar gynlluniau blynyddol y gwasanaeth, y cyllidebau refeniw a chyfalaf, a'r cyfraniad ar gyfer y cynghorau cyfansoddol.

- Monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf, ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ar unrhyw gyfraniadau atodol.

Bydd yr Awdurdod llawn yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, a hynny ym mis Mawrth, Mehefin, Hydref a Rhagfyr, a bydd yn ystyried materion megis cynlluniau'r gwasanaeth, materion busnes arferol, cyllidebau a gwariant, ac i wneud neu gymeradwyo penderfyniadau polisi fel y bo'n briodol. Gellir galw cyfarfodydd arbennig o'r Awdurdod unrhyw bryd os bydd gofyn trafod mater brys.

Caiff y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd eu hethol yn y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir ym mis Mehefin.

Yn cefnogi gweithrediad cywir yr Awdurdod ymhellach, mae ei Glerc a'i Drysorydd. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion o drafodion yr Awdurdod ar gael ar wefan yr Awdurdod.

<u>Y Panel Gweithredol</u>

Mae gan y Panel Gweithredol rôl amrywiol sy'n ymdrin â materion megis penodi uwch swyddogion, edrych ar fanylion cynlluniau gwella ac ariannol, ymdrin â rhai materion archwilio, ynghyd â materion polisi a chyfansoddiadol fel y cyfyd yr angen.

Mae fel arfer yn ymdrin ag ymatebion i bapurau ymgynghorol a datblygiadau polisi eraill, ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub ynglŷn â'i bolisïau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Lleihau Risg. Fel arfer, bydd y Panel yn ymdrin ag uwch-benodiadau trwy sefydlu is-bwyllgor arbennig i'r diben.

Sefydlwyd Cylch Gwaith y Panel yn 2001, a bydd yn cael ei adolygu fel y bo'r angen, gyda'r adolygiad diwethaf yn 2009 pan benodwyd y Pwyllgor Archwilio. Mae'n cynnwys y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a dau aelod o bob awdurdod cyfansoddol (cyfanswm o bedwar aelod ar ddeg). Yn ei gadeirio, mae'r Cadeirydd, neu yn ei (h)absenoldeb, yr Is-Gadeirydd.

Bydd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, rhwng pob cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub, er bod modd cynnal cyfarfodydd ychwanegol, yn dibynnu ar lwyth gwaith.

<u>Pwyllgor Archwilio</u>

Yn dilyn adolygiad cyfansoddiadol, penderfynwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod yn Rhagfyr 2008 benodi pwyllgor archwilio, i ddod i rym o flwyddyn ddinesig 2009/10 ymlaen.

Mae gan y Pwyllgor bedwar prif rôl, sef archwilio a chraffu - llywodraethu, archwilio a chraffu - rheolaeth ariannol ac adnoddau, archwilio a chraffu - rheoli risg a sicrwydd, ac archwilio a chraffu – perfformiad.

Mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys pob aelod nad ydynt yn aelod o'r panel gweithredol, a bydd yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Caiff y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd eu penodi o'r gwahanol awdurdodau cyfansoddol er mwyn cynrychioli cymunedau Gogledd Cymru.

<u>Pwyllgor Safonau</u>

Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000, a sefydlwyd ei Gylch Gwaith yn 2003. Mae ei ddyletswyddau'n cynnwys ystyried cwynion yn erbyn aelodau'r Awdurdod a gyfeirir ato gan yr Ombwdsmon, ynghyd â chaniatáu goddefebau. Bydd hefyd yn cynghori'r Awdurdod ar faterion yn ymwneud â safonau.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys 6 aelod, gyda phedwar ohonynt yn annibynnol. Ni all cynrychiolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub ar y Pwyllgor hwn ddal swydd ar yr Awdurdod. Tynnir y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd o blith yr aelodau annibynnol.

Rhaid i'r pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn, ond gallant gyfarfod yn amlach os oes angen.

**B. Wedi eu cynnwys o fewn rheolaeth ddyddiol y sefydliad, mae nifer o strwythurau allweddol yn eu lle gyda'r bwriad o gynnal ac adolygu effeithiolrwydd systemau:**

Y Grŵp Gweithredol

Mae'r grŵp strategol yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân a 3 Prif Swyddog Tân Cynorthwyol sy'n cyfarfod bob chwe wythnos i adolygu eitemau sefydlog yn cynnwys perfformiad, rheoli risg ac arian, a datblygu polisïau a gweithdrefnau mewnol.

Rheolaeth Ariannol

Mae trefniadau cadarn yn eu lle i sicrhau bod rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn solet, bod ei gyllidebau cymeradwyedig yn realistig ac yn fforddiadwy, ac yn cael eu cefnogi gan systemau monitro gwariant sy'n effeithiol, a hynny er mwyn darparu gwybodaeth i bob lefel o'r sefydliad ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

• Bob blwyddyn, bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn adolygu ac yn cymeradwyo cynllun ariannol tymor canolig 3 blynedd a ddatblygwyd ac a oleuwyd gan swyddogion ar y cyd â phenaethiaid adrannau, ac mae'n cysylltu â'r amcanion strategol. Mae'n galluogi'r Gwasanaeth i gael ffyrdd tymor byr, canolig a hir i fynd i'r afael â chynllunio refeniw a chyfalaf.

• Bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn derbyn adroddiadau monitro'r gyllideb bob chwarter, a bydd y Grŵp Gweithredol yn adolygu'r gyllideb yn fanwl bob 6 wythnos;

• Hefyd, bydd grŵp monitro'r gyllideb, sy'n cael ei arwain gan swyddogion, yn cyfarfod bob chwarter gyda phob pennaeth adran i drafod eu cynnydd hyd yn hyn o'i gymharu â'u cynlluniau adrannol a'u cyllidebau datganoledig, a hynny er mwyn sicrhau bod unrhyw wyro o'r targedau y cytunwyd arnynt yn cael ei amlygu cyn gynted ag y bo modd, a chamau'n cael eu cymryd.

• Mae didoliad clir o ran cyfrifoldebau rhwng y swyddogaeth cyfrifyddu rheolaeth, a wneir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, a'r swyddogaeth cyfrifyddu ariannol, a wneir trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Rheoli Perfformiad

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddatblygi ei fframwaith rheoli perfformiad yn barhaus, ac mae wedi gweithredu cydrannau pwysig o fframwaith. Mae'n sylweddoli mai maes sy'n datblygu'n barhaus yw hwn, ac mae'n hyderus o barhau i wneud cynnydd yn hyn o beth. Felly, mae'r trefniadau canlynol yn eu lle:

• Gosodir amcanion strategol y Gwasanaeth yn ffurfiol gan yr Awdurdod Tân ac Achub llawn, a chânt eu cyhoeddi yn dilyn cyfnod ymgynghori 12 wythnos yn y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella. Ystyrir adroddiadau ar y cynnydd wrth gyflwyno'r amcanion strategol hyn fel mater o drefn mewn cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub a chan y Grŵp Gweithredol.

• Trwy drafodaethau cynllunio rhwng penaethiaid adrannau/swyddogaeth a'r aelod perthnasol o'r Grŵp Gweithredol, mae'r amcanion lefel uchel hyn yn cael eu trosi'n gynlluniau a strategaethau adrannol sy'n diffinio'n fanylach sut y byddant yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlenni disgwyliedig a chyda'r cyllidebau a glustnodwyd.
Cyfrifoldeb y Dirprwy Brif Swyddog Tân yw cymeradwyo'r cynlluniau hyn yn derfynol a'u monitro bob chwarter, a dyna pwy sydd â'r cyfrifoldeb ar lefel uwch reolwr am Gynllunio Cyllid a Chorfforaethol. Mae cyfarfodydd bob chwarter gyda'r grŵp Monitro Perfformiad a'r Gyllideb yn caniatáu ffocws manylach ar y cynnydd wrth gyflawni'r camau a gynlluniwyd.

• Trwy gydol y flwyddyn, bydd y Gwasanaeth yn casglu ac yn monitro cyfres o ddangosyddion perfformiad. Bydd adroddiadau rheolaidd am weithgarwch a pherfformiad o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol yn cael eu hystyried gan y Grŵp Gweithredol (6 bob blwyddyn) a'r Panel Gweithredol (bob chwarter) i fonitro cynnydd; Gall ystyried yr adroddiadau hyn arwain at ymchwil pellach i faterion penodol neu gymryd camau i gywiro os nad yw'r lefelau gweithgarwch neu berfformiad o fewn cyrraedd y nod, neu os na ellir eu hesbonio (e.e. oherwydd amodau tywydd cyffredinol). Mae holl adroddiadau'r Awdurdod Tân ac Achub ar gael ar wefan y Gwasanaeth.

•Bydd data sy'n bwydo i mewn i Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol sy'n seiliedig ar ganlyniadau, ynghyd â Dangosyddion Craidd eraill a osodir gan Lywodraeth y Cynulliad, yn cael eu casglu, eu gwirio a'u dadansoddi'n rheolaidd, a'u cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad a'u hadrodd yn gyhoeddus trwy gydol y flwyddyn. Hefyd, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi llawer o'r wybodaeth hon ar ei gwefannau ei hun.

•Bydd data Dangosydd Strategol yn cael eu harchwilio'n flynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Yn cefnogi rheolaeth perfformiad effeithiol ymhellach, mae mesurau a dangosyddion lleol gyda thargedau cysylltiedig lle bo hynny'n berthnasol (e.e. nifer yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhelir fesul gorsaf dân).

•Bydd data am ddigwyddiadau yn cael eu casglu, a'u hansawdd yn cael ei sicrhau'n fewnol, cyn eu cyflwyno trwy System Adrodd Digwyddiadau (IRS) newydd ar y we i Lywodraeth y DU. Bydd systemau electronig mewnol hefyd yn storio data, er enghraifft: gweithgarwch diogelwch tân ac atal; a gwybodaeth ariannol.

• Hefyd, cymerodd y Gwasanaeth ran eto mewn proses gilyddol o Sicrwydd Gweithredol Cyflwyno Gwasanaethau rhwng y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru. Y Prif Linellau Ymholi yn 2010-11 oedd Atal (mewn perthynas â Diogelwch Cymunedol) a Rheoli Risg Cymunedol. Wedi cwblhau hunan-asesiad, aeth y Gwasanaeth ati i wahodd tîm o'r ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru i gynnal adolygiad gan gymheiriaid ac i wneud argymhellion ar gyfer gwella, yn seiliedig ar eu canfyddiadau.

Rheoli Risg a Chynllunio Parhad Busnes

Mae'r Grŵp Gweithredol yn gyfrifol am y gofrestr risg parhad busnes corfforaethol lefel uchel, a ddatblygwyd ar gyfer yr Awdurdod, ynghyd a'i adolygu. Ar y cyd â phenaethiaid adrannau, mae'r Awdurdod hefyd wedi datblygu cofrestr risg corfforaethol gynhwysfawr sy'n agored i gael ei hadolygu'n rheolaidd.

Hefyd, mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi polisi Rheoli Parhad Busnes. Fel rhan o'r Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella ar gyfer 2011-2012, bydd y Gwasanaeth yn sicrhau bod y trefniadau parhad busnes yn gynhwysfawr ac yn sicr. I wneud hyn, bydd y Gwasanaeth yn hyrwyddo pwyslais o'r newydd ar symud cynlluniau ymlaen a datblygu rhai newydd yn barhaus, gan roi'r un pwys ar reoli parhad busnes corfforaethol a gweithredol, a hynny er mwyn gofalu nad oes yr un maes wedi ei anghofio a bod y cynlluniau adfer yn rhai cadarn.

I wneud hyn, bydd gan y Gwasanaeth:

- Gyfrifoldeb wedi ei ddiffinio a'i glustnodi'n glir am Reoli Parhad Busnes o fewn y Gwasanaeth.
- Datblygu rhaglen o brofi ac ymarfer er mwyn gwirio dilysrwydd y cynlluniau presennol.

Y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella

Trwy broses ffurfiol o ddatblygu Cynllun i Leihau Risg a Gwella, sy'n cynnwys amcanion strategol y Gwasanaeth, bydd yr Aelodau a'r Swyddogion yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth berthnasol, megis:

- lefelau perfformiad a gweithgarwch blaenorol;
- yr heriau a'r newidiadau a ragwelir yn y dyfodol;
- y risgiau sy'n hysbys o ganlyniad i asesiadau risg blaenorol a newydd;
- argymhelliad adroddiadau archwilio allanol, adroddiadau archwilio mewnol, hunan-asesiadau ac adolygiadau gan gymheiriaid; ac arolygiaethau penodol (e.e. yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch) a chyrff ( e.e. Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

Bydd y Risgiau Corfforaethol a'r Risgiau Cymunedol yn cael eu hystyried mewn ffordd integredig yn ystod y broses hon.

Yn Hydref 2010, fe wnaeth yr Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella dan y cyfarwyddyd strategol newydd a gyhoeddwyd yn dilyn dyfodiad y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Roedd y cynllun hwn yn cynnwys adroddiad am berfformiad wrth edrych am yn ôl ar 2009-10, adroddiad am y cynlluniau gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn gyfredol, a'r saith Amcan ar gyfer Gwella a osodwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2011-12.

Grŵp Llywio TGCh

Fe wnaeth adolygiad allanol o'r adran TGCh arwain at ffurfio Grŵp Llywio TGCh. Yn ei gadeirio, mae'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol sy'n gyfrifol am TGCh ac mae hefyd yn cynnwys y Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r ddau Brif Swyddog Tân Cynorthwyol arall yn ogystal â'r Rheolwr TGCh. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys:

- Cyfrifoldeb am ddiffinio polisïau a gweithdrefnau TG y Gwasanaeth, gan gynnwys y polisi diogeledd.
- Monitro lleoliad a gweithrediad Polisi TG o fewn y Gwasanaeth
- Datblygu'r strategaeth TG, a bod yn gyfrifol am adolygu a derbyn achosion busnes o wahanol adrannau ar gyfer buddsoddiadau TG
- Cyfrifoldeb am adolygu a chymeradwyo caffaeliadau mawr o ran TG, a goruchwylio gweithrediad prosiectau mawr TG.

**C. Yn ogystal â'i strwythurau pwyllgorau mewnol, a rheolaeth o ddydd i ddydd, mae'r Gwasanaeth hefyd yn agored i adolygiadau allanol o'i systemau allweddol, a hynny er mwyn sicrhau effeithiolrwydd ei systemau:**

Archwilio Mewnol

Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn awgrymu'r angen am swyddogaeth Archwilio Mewnol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau "wneud trefniadau ar gyfer gweinyddiad priodol eu materion ariannol." Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol bod "rhaid i gorff perthnasol gynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol yn unol â'r arferion archwilio mewnol priodol."

Mae'r Awdurdod yn gosod ei swyddogaeth Archwilio Mewnol ar gontract allan i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'i Gytundeb Lefel Gwasanaeth Trysorlys a Gwasanaethau Ariannol. Mae'r Gwasanaeth, sy'n annibynnol o ran ei gynllunio a'i weithrediad, yn cydymffurfio â Chod Arferion Archwilio Mewnol CIPFA, ac mae wedi ei gynllunio i roi sicrwydd bod yr Awdurdod yn cynnal systemau digonol o ran rheolaeth fewnol ac yn gwneud argymhellion ar ffyrdd i wella'r rhain pan fo'n teimlo bod angen.

Mae gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio fynediad uniongyrchol at y Prif Swyddog Tân, pob lefel o reolaeth a'r aelodau etholedig.

Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei gyflwyno ar sail asesiad risg, sef dull yn seiliedig ar risg i bennu anghenion yr Awdurdod ar ddechrau pob blwyddyn, ac mae wedi ei nodi mewn cynlluniau gweithredol sy'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn flynyddol i'w cymeradwyo.

Yn y Pwyllgor Archwilio ar 6ed o Fehefin 2011 cyflwynwyd 'Crynodeb o Weithgarwch Archwilio Mewnol 2010/11' i ddangos y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'r 'Cynllun Archwilio Drafft ar gyfer 2011/12.'

Yn ystod 2010/11, fe wnaeth yr adran Archwilio Mewnol gwblhau 50 diwrnod o adolygu, a gafodd eu treulio yn cynnal 4 archwiliad yn y meysydd canlynol:

| | Arch-wiliad | Critigol | Mawr | Canolig | Bach | cyfanswm | Cytunwyd gan y Rheolwyr | Barn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorsafoedd yn ôl y galw -Sir Ddinbych | Cyson | 0 | 0 | 3 | 5 | 8 | 8 | Digonol |
| Rhyddid Gwybodaeth | Cyson | 0 | 0 | 1 | 3 | 4 | 4 | Boddhaol |
| Gweithio mewn Partneriaeth – Diogelwch Cymunedol | Cyson | 0 | 0 | 14 | 6 | 20 | 20 | Digonol |
| Diogeledd TG | Cyson | 0 | 0 | 7 | 0 | 7 | 7 | Boddhaol |
| | | | | | | | **Da** | **0** |
| | | | | | | | **Boddhaol** | **2** |
| | | | | | | | **Digonol** | **2** |
| | | | | | | | **Anfoddhaol** | **0** |
| | | | | | | | | **4** |

Bydd pob archwiliad a wneir yn cael ei ddilyn gan archwiliad adolygu chwe mis yn ddiweddarach er mwyn gweld a ddilynwyd yr argymhellion yn yr adroddiad. Yn 2010/11, yr archwiliadau dilynol oedd:

| | Disgrifiad | Cyf. Ffeil | Dyddiad yr Arch. | Dyddiad arfaethedig yr Arch. dilynol | Dyddiad yr Arch. dilynol | Nifer yr Argym. | Argym. yn aros | Barn diwygiedig yr Arch. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Incwm ATAGC | VF0 224 | Medi-09 | Ebr-10 | Awst-10 | 7 | **0** | **Da** |
| 2 | Diogelu Data | VF0 194 | Maw-10 | Medi-10 | Tach-10 | 4 | **1** | **Da** |
| 3 | E Lywodraeth | VF0 263 | Meh-10 | Rhag-10 | Maw-11 | 1 | **0** | **Da** |
| 4 | Menter Twyll | VF0 261 | Chw-10 | Amh. | Amh. | 0 | **Amh.** | **Amh.** |

Mae canlyniadau'r archwiliadau hyn, gan gynnwys yr adolygiadau, yn cael eu hadrodd i'r Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, y Rheolwr Cyllid a'r rheolwr priodol ar gyfer gweithredu os oes angen.

Yn yr un cyfarfod, fe wnaeth yr adran Archwilio Mewnol hefyd gyhoeddi ei Ddatganiad Sicrwydd Blynyddol, fel sy'n angenrheidiol gan God Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol 2006. Daeth y Pennaeth Archwilio i'r casgliad yn ei farn archwilio fod prosesau rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol boddhaol gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i reoli'r modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei amcanion.

<u>Archwilio Allanol</u>

Mae KPMG LLP, ar ran Swyddfa Archwilio Cymru, wedi parhau i ddarparu gwasanaeth archwilio allanol i'r Awdurdod yn 2010/11, ac felly mae effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol hefyd yn cael ei oleuo gan eu gwaith hwy.

Ym Medi 2010, fe wnaeth Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG LLP gyflwyno eu Hadroddiad ar Ddatganiadau Cyfrifyddu i'r Pwyllgor Archwilio, ac roedd hwnnw'n datgan eu bwriad i gyhoeddi Adroddiad diamod yr Archwilydd ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig am 2009/10. Roedd yr adroddiad manwl yn cadarnhau bod datganiadau cyfrifyddu'r Awdurdod yn rhoi golwg gwir a theg o'r sefyllfa ariannol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2010.

Yn dilyn dyfodiad Mesur Llywodraeth Leol 2009, aeth yr Awdurdod drwy ei Asesiad Gwella Blynyddol cyntaf gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2010/11, gan arwain at gyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol yn Ionawr 2011. Mae'r Adroddiad yn edrych ar y ffordd y mae'r Awdurdod yn gwella ei wasanaethau.

Mae'n gofyn:
• a yw'n cael ei reoli'n dda
• a yw'n cynorthwyo i leihau'r tebygrwydd o danau a gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, a'u hardrawiad
• a yw'n ymateb yn dda i danau a bygythiadau eraill i ddiogelwch; ac
• a yw'n gwybod beth sydd angen iddo ei wneud i wella

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Awdurdod ei hun ar gyfer gwella, gan nodi beth sydd angen i'r Awdurdod ei wneud i wella ei wasanaethau. Bob blwyddyn, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu llunio adroddiad sy'n edrych ar ba gynnydd y mae'r Awdurdod wedi ei wneud.

Prif neges yr adroddiad yw bod arweinyddiaeth gadarn a gwelliannau i lywodraethu corfforaethol yn debygol o wella gwelliannau yn dyfodol, er bod yr Awdurdod yn wynebu rhai heriau. Crynodeb o'r casgliadau allweddol yw:

- Mae'r Awdurdod yn cael ei redeg yn dda o ran arweinyddiaeth a rheoli pobl. Mae'n gweithio'n dda gydag eraill mewn partneriaeth; fodd bynnag, mae rhai gwendidau o ran rheoli perfformiad ac mae angen datblygu prosesau busnes ymhellach

- Mae cyllideb yr Awdurdod wedi cael ei reoli'n dda, ac mae'r arian wedi ei wario'n briodol, ac mae datganiadau cyfrifyddu yr Awdurdod yn cyflwyno golwg gwir a theg o'i drafodion ariannol.

- Mae'r amcanion cyhoeddedig ar gyfer gwella sydd gan yr Awdurdod yn glir, ac mae gan lawer ohonynt fesurau o lwyddiant. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd rhai o'i amcanion ar gyfer gwella yn anodd eu mesur, a bydd yn datblygu ac yn cyflwyno dangosyddion perfformiad lleol pellach.

- Mae'r Awdurdod yn gwneud llawer o'r pethau iawn i leihau'r tebygolrwydd o danau, a'u hardrawiad, ond mae'n cydnabod bod lle i wella. Mae dull yr Awdurdod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r ffactorau sy'n cyfrannu at wneud rhai pobl yn fwy tebygol nag eraill o gael tanau gartref. Mae wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i adnabod a lliniaru'r risg, ac mae nifer y tanau y mae'n mynd atynt yn gostwng. Ond, mae'n dal yn wynebu heriau, yn enwedig o ran lleihau marwolaethau oherwydd tanau yn y cartref.

- Mae'r Awdurdod wedi ymateb i amrywiaeth eang o danau a bygythiadau i ddiogelwch. Derbyniodd tua 17,000 o alwadau at ddigwyddiadau brys yn 2009-10. Mae nifer y galwadau maleisus a dderbyniodd yr Awdurdod a mynd atynt wedi gostwng ers 2004-05, yn bennaf oherwydd bod galwadau amheus yn cael eu herio gan weithredwyr yr ystafell reoli, a chamau'n cael eu cymryd yn erbyn pobl sy'n gwneud galwadau maleisus.

- Mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithio i wneud newidiadau i drefniadau iechyd a diogelwch yn dilyn archwiliad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn Rhagfyr 2009, ond eto mae anafiadau i staff 'ar ddyletswydd' ac absenoldeb salwch wedi cynyddu ers 2007-08.

- Mae'r Awdurdod yn cymryd camau i wella hyfforddiant, ac mae ganddo broses ddysgu weithredol gynhwysfawr yn ei lle, sy'n caniatáu i staff arsylwi ar ddigwyddiadau a chasglu gwybodaeth at ddibenion iechyd a diogelwch.

Yn dilyn cyflwyno'r Asesiad Gwella Blynyddol, mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol gan ei archwilwyr allanol bellach yn cael ei gyflwyno o fewn yr adroddiad. Mae'r llythyr yn nodi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'r gwaith archwilio a wnaed ganddynt yn ystod y deuddeng mis diwethaf. Cafodd yr adroddiad a dderbyniwyd ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio ar 31ain Ionawr 2011.

Roedd y canfyddiadau mewn penawdau sy'n codi o'r llythyr, ac sy'n cael eu hailadrodd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, yn dod i'r casgliad bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cydymffurfio â'i ofynion adrodd ar welliannau ariannol a gwella perfformiad, gan dderbyn barn archwiliad diamod ar y datganiadau cyfrifyddu, a chadarnhau eu bod yn cyflwyno golwg gwir a theg ar drafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Nodwyd y meysydd canlynol yn ystod yr archwiliad o'r cyfrifon:

- mae prosesau llunio’r datganiadau cyfrifyddu wedi parhau i wella, gan arwain at ddatganiadau drafft sydd o safon dda ac yn cael eu cefnogi gan bapurau gwaith sy’n gynhwysfawr;
- mae trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli’r gyllideb yn eu lle, ac mae cynllunio ariannol tymor canolig yn cael eu datblygu, ond mae’r Awdurdod yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol;
- Mae Cynllun yr Awdurdod ar gyfer Gwella 2010-11 yn cwrdd â’r holl ofynion statudol, ac eithrio’r ffaith na chafodd y Cynllun Gwella, er ei fod wedi gwblhau erbyn 31 Hydref 2010, ei gyhoeddi tan 1 Tachwedd 2010, ac mae’n darparu barn gytbwys o’i berfformiad yn 2009-10.

## 6. Materion Allweddol o ran Llywodraethu

Barn y Swyddogion yw nad yw’r adolygiad o’r trefniadau llywodraethu am flwyddyn ariannol 2010/11 wedi amlygu unrhyw feysydd pryder mawr. Mae’r trefniadau presennol yn addas i’r diben, ac maent yn ddigonol i gwrdd â nodau corfforaethol yr Awdurdod.

Mae nifer o fân faterion, a nodir isod ac yn yr adolygiad, yn cael eu trin gan y swyddogion priodol, a bydd y cynnydd yn cael ei fonitro trwy’r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn i ddod, sef 2011/12, a byddant yn cael eu hadrodd i’r Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ystod yr adolygiad y flwyddyn nesaf.

Materion i’w trin yn 2011/12:

1. Ffurfioli Polisi Rheoli Risg yr Awdurdod
2. Ffurfioli Polisi Partneriaethau yr Awdurdod
3. Adolygu’r cynllun dirprwyo
4. Hyrwyddo’r Polisi Chwythu'r Chwiban ymhlith y staff.

ARWYDDWYD

Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub
Gogledd Cymru

Dyddiad:

Simon Smith
Prif Swyddog Tân Awdurdod Tân
Gogledd Cymru
Dyddiad:

Colin Everett
Clerc i Awdurdod Tân ac Achub
Gogledd Cymru

Dyddiad:

Ken Finch
Trysorydd i Awdurdod Tân ac Achub
Gogledd Cymru

Dyddiad:

# DATGANIAD POLISÏAU CYFRIFYDDU

## 1. CYFFREDINOL

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod am flwyddyn ariannol 2010/11, a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2011. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad blynyddol o Gyfrifon dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, ac mae'r Rheoliadau hynny yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi gydag arferion cyfrifyddu priodol. Yn bennaf, mae'r arferion hyn yn cynnwys y Cod Ymarfer ar Gyfrifydda Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) a'r Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau 2010/11 (BVACOP), a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a'r cyfarwyddyd statudol a gyhoeddwyd dan Adran 12 o Ddeddf 2003.

Yr arfer cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad o Gyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, a hwnnw wedi ei addasu trwy ailwerthuso rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

## 2. NEWIDIADAU MEWN POLISÏAU CYFRIFYDDU: TROI I SAFONAU IFRS

Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), ac mae'n cynnwys Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant (gyda gwybodaeth y gwasanaeth wedi ei ddadansoddi ar sail y Cod BVACOP), y Fantolen, Datganiad Llif Arian a Nodiadau i'r Cyfrifon (gan gynnwys adroddiad segment ychwanegol yn seiliedig ar drefniadau rheolaeth ariannol, ac yn cynnwys dadansoddiad goddrychol a chysoniadau – nodyn 21). Mae trydedd fantolen, fel ar 1 Ebrill 2009, yn cael ei hadrodd yn Fantolen. Yn yr Atodiad i'r cyfrifon, mae datganiadau wedi eu paratoi sy'n dangos y troi o gyfrifon UK GAAP i'r rhai a baratoir yn fformat newydd y Safonau IFRS, ac maent yn cynnwys y mantolenni ar gyfer 2008-09 a 2009-10 a'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer 2009-10.

Yn y Datganiad o Gyfrifon IFRS agoriadol, fel man cychwyn ar gyfer cyfrifyddu dan y Safonau IFRS, gwnaed y canlynol:-

- Mae'r holl asedau ac ymrwymiadau wedi cael eu cydnabod.
- Mae'r asedau ac ymrwymiadau priodol wedi cael dadgydnabod.
- Mae eitemau wedi cael eu hailddosbarthu, a oedd yn cael eu cydnabod dan UK GAAP fel un math o ased, ymrwymiad neu cydran o ecwiti, yn fath gwahanol dan Safonau IFRS.
- Mae'r Cod wedi cael ei ddefnyddio wrth fesur pob ased ac ymrwymiad.
- Yn gyffredinol, mae'r newidiadau wedi cael eu gwneud am yn ôl, ac eithrio rhai eithriadau.

Mae'r segmentau gweithredu'n cael eu diffinio ar yr un sail ag ar gyfer y "prif benderfynwr gweithredol", ac mae esboniad o'r sail a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adrodd segmentol, ynghyd â chysoniad o'r symiau cysylltiedig yn y Datganiad o Gyfrifon, wedi eu cynnwys (nodyn 21).

## 3. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

Asedau Anarbenigol yr Ochr Weithredol ac Anweithredol

Mae tir ac adeiladau anarbenigol yr ochr weithredol ac anweithredol yn cael eu cario drosodd ar Werth Teg, sy'n cael ei bennu fel arfer yn ôl tystiolaeth y farchnad, sef yn gyffredinol y gwerth ar y farchnad agored, ond mae'r Cod yn caniatáu i'r rhain gael eu cario drosodd ar y gwerth defnydd presennol.

Asedau o Natur Arbenigol

O ran asedau o natur arbenigol lle nad oes unrhyw dystiolaeth ar y farchnad, mae amcangyfrif o werth teg wedi cael ei seilio ar Gost Amnewid Dibrisiedig (*Depreciated Replacement Cost (DRC*)), gyda'r prisiad yn Ased Cyfwerth Modern (*Modern Equivalent Asset (MEA*)) gan ddefnyddio'r dull "adeiladu ar unwaith". Mae gorsafoedd tân yn cael eu cynnwys yn y categori hwn.

Tir ac Adeiladau

Rhoddwyd cyfrif am y tir a'r adeiladau ar wahân, a thybir bod oes ddiddiwedd gan dir.

Asedau sy'n cael eu Hadeiladu

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu wedi cael eu prisio ar gost hanesyddol.

Asedau dros ben

Mae asedau dros ben wedi cael eu prisio ar Werth Teg, sef yr hyn a ystyrir yn werth ar y farchnad agored. Lle nad yw'r ased yn cael ei ddal er mwyn creu llif arian, y gwerth a ddefnyddir yw gwerth presennol potensial gwasanaeth yr ased sy'n weddill, a thybir bod hynny yn gyfwerth o leiaf â chost amnewid y potensial gwasanaeth hwnnw a'i ddefnyddio fel mesur o werth teg.

Os yw'r ased dros ben o natur arbenigol, yna bydd y gost amnewid dibrisiedig wedi cael ei ddefnyddio fel amcangyfrif o werth teg. Mae asedau dros ben wedi eu dibrisio, gyda'r dibrisiad wedi ei ddangos yn erbyn "costau na ddosrannwyd" yn hytrach na gwasanaeth penodol.

Cyfrifyddu Cydadrannol

Cydran o eiddo, peiriant ac offer yw eitem sydd â chost sydd yn sylweddol mewn perthynas â chyfanswm cost yr ased. Dylid dibrisio cydrannau'n unigol dros eu hoes ddefnyddiol. Fodd bynnag, wrth droi drosodd i'r Cod, nid yw cyfrifyddu cydrannol ond wedi cael ei ddefnyddio pan fo cydran yn cael ei newid neu ei wella'n rhannol, a'r hen gydran wedi ei ddadgydnabod, ac felly nid oes addasiad i'r mantolenni 31 Mawrth 2009 neu 31 Mawrth 2010.

Ailbrisio

Pan fo ased yn cael ei ailbrisio, gwnaed nodyn rhwng y Gronfa Ailbrisio a'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf, sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiad yn seiliedig ar gost hanesyddol a swm yr ailbrisiad.

Colledion Ailbrisio

Bydd colled ailbrisio o ganlyniad i dreulio'n glir fudd economaidd, os bydd gwraged ailbrisio ar yr ased hwnnw, yn cael ei godi i ddechrau yn erbyn y gwarged i faint y gwarged hwnnw, gyda balans y golled yn cael ei godi ar y Cyfrif Cynhwysfawr Incwm a Gwariant.

Cafodd y prisiad llawn diwethaf o'r eiddo ei gynnal gan Wilks Head and Eve, cwmni o briswyr o Lundain, ar 1 Ebrill 2009. Cafodd nifer o eiddo eu hailbrisio ar 1 Ebrill 2010 oherwydd i waith gael ei wneud ar yr eiddo hyn. Ers 2010-11, mae'r Awdurdod wedi cyflwyno polisi o brisio eu heiddo ar raglen dreigl yn hytrach na gwneud prisiad llawn bob 5 mlynedd. Mae'r lle swyddfeydd wedi eu prisio ar werth eu defnydd presennol, ac mae'r gorsafoedd tân ar gost amnewid dibrisiedig. Er mwyn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer, fe wnaeth y prisiwr amcangyfrif yr oes sydd ar ôl i holl adeiladau'r Awdurdod er mwyn gallu cyfrifo cost dibrisio. Mae asedau eraill yn cael eu cydnabod ar gost hanesyddol, sef y gost gyfredol ar asedau oes fer ac sy'n dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

4. **AMHARIAD AR ASEDAU**

Mae'r asedau'n cael eu cario heb fod dim uwch na'u swm adferadwy, a mesurir yr amhariad trwy gymharu'r gwerth sy'n cael ei gario gyda'r uchaf o'r gwerth teg, llai y costau i werthu, (cyfwerth â'r pris gwerthu net) a'r gwerth o'u defnyddio. Bydd yr amhariad yn cael eu fesur bob blwyddyn, ac mae'r dangosyddion i wrth-droi'r amhariad yr un fath ar gyfer asedau diriaethol ac asedau anniriaethol. Bydd yr holl golledion amhariad ar asedau wedi eu hailbrisio yn cael eu cydnabod yn y Gronfa Ailbrisio hyd at y swm yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer pob ased unigol.

5. **ASEDAU ANNIRIAETHOL**

Mae asedau anniriaethol a grëir yn fewnol yn cael eu cyfalafu lle bo'r meini prawf ar gyfer cydnabod yn cael eu hateb. Dyma'r meini prawf: rhaid iddi fod yn bosib gwahanu'r ased oddi wrth yr endid, rhaid i'r endid reoli'r ased, rhaid bod budd economaidd yn y dyfodol i'r ased, rhaid iddi fod yn debygol y bydd y manteision economaidd yn llifo i'r endid, ac y gellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy. I ddechrau, bydd yr ased anniriaethol yn cael ei fesur ar gost, bydd pob ailbrisiad yn cael eu codi i ddechrau ar y gronfa ailbrisio, ac nid oes uchafswm ar oes ddefnyddiol yr ased.

6. **PRYDLESAU**

Mae prydlesau eiddo wedi eu categoreiddio a'i trin fel prydlesau ar wahân o ran tir ac adeiladau. Mae'r elfen tir yn cael ei drin fel prydles gweithredu oni bai fod disgwyl i'r hawl basio i ddeiliad y brydles ar ddiwedd cyfnod y brydles. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi cyfrif am y prydlesau dan y Safonau IFRS yn ei fantolen agoriadol fel ar 1 Ebrill 2009.

Lle bo prydles gweithredu wedi ei hailgategoreddio'n brydles gyllidol, bydd ased ac atebolrwydd wedi cael eu cydnabod sy'n cyfateb i werth teg yr ased. Os nad yw'r gwerth teg yn wybyddus, mae wedi ei amcangyfrif fel gwerth presennol y taliadau prydles isaf.

Aseswyd trefniadau i bennu p'un ai ydynt yn cynnwys sylwedd prydles. Roedd yr asesiad yn ystyried p'un ai yw cyflawni'r trefniant yn seiliedig ar ddefnyddio ased(au) penodol a ph'un ai yw'r trefniant yn cyfleu'r hawl i ddefnyddio'r ased. Lle bo hyn, cydnabuwyd y brydles a rhoi cyfrif amdani yn unol â darpariaethau'r brydles.

7. **BUDDION GWEITHWYR**

Mae buddion tymor byr wedi eu cronni fel yr enillwyd hwy, ac maent yn cynnwys taliadau a chyflogau, balansau digolledol, bonysau, a buddion anariannol yr ystyrir eu bod yn dod yn ddyledus yn llwyr o fewn y 12 mis wedi'r cyfnod pryd y rhoddwyd y gwasanaeth gan y gweithiwr. Bydd cost gronedig wedi ei chydnabod pan fo ymrwymiad i dalu pae, cyflog a budd-daliadau nawdd cymdeithasol ar ddiwedd y flwyddyn. Rhoddwyd cyfrif am gost pob budd yn ystod cyflogaeth yn ystod y cyfnod yr enillwyd y budd gan y gweithiwr. Mae'r prif ardrawiad mewn perthynas â thâl gwyliau, sydd wedi ei gronni pan fo'n berthnasol.

8. **CODI AR Y REFENIW AM ASEDAU ANGHYFREDOL**

Mae'r cyfrifon gwasanaethau, gwasanaethau cynnal a masnachu yn cael eu debydu gyda'r symiau canlynol i gofnodi'r gost o ddal asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn:-

- Dibrisiad sydd i'w briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol.

- Colledion ailbrisio ac amharu a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa Ailbrisio y gellir dileu'r colledion yn eu herbyn.

- Amorteiddiad asedau sefydlog anniriaethol sydd i'w briodoli i'r gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod godi cyfraniadau i ariannu dibrisio, ailbrisio, colledion neu amorteiddiadau amhariad. Fodd bynnag, mae gofyn iddo wneud cyfraniad blynyddol o'r refeniw tuag at leihau ei ofyniad cyffredinol o ran benthyca, sy'n gyfwerth â swm a gyfrifir ar sail ddarbodus a bennir gan yr Awdurdod yn unol â'r cyfarwyddyd statudol. Felly, mae dibrisio, ailbrisio a cholledion amhariad ac amorteiddiadau yn cael ei disodli gan y cyfraniad ym Malans y Gronfa Gyffredinol – Darpariaeth Lleiafswm Refeniw trwy drafodyn wedi ei addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

9. **DIBRISIO**

Mae asedau, heblaw am dir ac anweithredol, yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

Mae asedau'n cael eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth dros y cyfnodau canlynol:-

| | |
|---|---|
| Adeiladau | 15-80 mlynedd |
| Isadeiledd | 5-20 mlynedd |
| Cerbydau, Peiriannau ac Offer | 3-20 mlynedd |
| Asedau Anniriaethol | 5-15 mlynedd |

10. **SAIL I DDARPARIAETH AR GYFER AD-DALU DYLED**

Mae'r Awdurdod wedi cymryd benthyciadau tymor hir o wahanol hydoedd i ariannu prynu asedau. Mae darpariaeth ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn gyfrifiad sy'n seiliedig ar y gofyniad ariannu cyfalaf addasedig agoriadol. Bydd y gofyniad ariannu cyfalaf yn cael ei ddangos yn gyffredinol fel symudiad ar Falans y Gronfa Gyffredinol fel swm sy'n gyfwerth â 4% o'i werth. Fodd bynnag, mae darpariaeth ychwanegol (gwirfoddol) wedi ei wneud ar gyfer ad-dalu'r ddyled i adlewyrchu'r cynnydd yn yr asedau oes fer sydd bellach yn cael ei hariannu trwy fenthyca, yn hytrach na phrydlesau gweithredu. Mae'r ddarpariaeth ychwanegol yn seiliedig ar oes economaidd yr ased, ac mae'r symudiad ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei gyfrifo ar y sail hwnnw.

11. **CRONFEYDD WRTH GEFN A DARPARIAETHAU**

Gwneir darpariaethau pan fo rhywbeth wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth ar yr awdurdod sy'n debygol o ofyn am setliad trwy drosglwyddo buddion economaidd, ond lle bo amseriad y trosglwyddiad yn ansicr.

Codir tâl am y darpariaethau ar gyfrif refeniw'r gwasanaeth priodol yn y flwyddyn y mae'r awdurdod yn dod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, yn seiliedig ar yr amcangyfrif gorau o'r setliad tebygol. Pan wneir y taliadau, cânt eu codi ar y ddarpariaeth a sefydlir yn y Fantolen. Bydd setliadau amcangyfrifol yn cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol – lle bo hi'n fwy tebyg na pheidio na fydd angen trosglwyddo buddion economaidd bellach (neu y gwneir setliad is na'r disgwyl), bydd y ddarpariaeth yn cael ei gwrth-droi a'i chredydu'n ôl i gyfrif refeniw priodol y gwasanaeth.

Dyma'r ail flwyddyn pryd gall yr Awdurdod ddal cronfeydd wrth gefn, a hynny oherwydd newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Gellir diffinio cronfa wrth gefn fel cam gwirfoddol gan yr Awdurdod i roi adnoddau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol. Bydd y gwariant yn cael ei godi ar y cyfrif refeniw, a gwneir cyfraniad o'r gronfa wrth gefn yn erbyn y gost.

12. **STOC**

Mae stoc wedi ei brisio gan ddefnyddio fformiwlâu 'cyntaf i mewn, cyntaf allan' neu gost gyfartalog pwysol. Lle bo telerau talu gohiriedig ar gyfer prynu stoc, ystyrir hyn yn drefniant ariannu, a byddai'r gwahaniaeth rhwng y pris a fyddai wedi cael ei dalu am delerau credyd "arferol" a'r swm gwirioneddol a dalwyd wedi cael ei gydnabod fel traul llog dros gyfnod yr ariannu.

.

13. **COSTAU BENTHYCA**

Mae opsiwn i gyfalafu costau benthyca sy'n ymwneud ag asedau cymwys, ond ni ddefnyddiwyd yr opsiwn hwn.

14. **RHOI CYFRIF AM GRANTIAU'R LLYWODRAETH**

Ni ellir rhoi grantiau'r Llywodraeth yn erbyn asedau sefydlog, ond bydd grantiau'r llywodraeth (a chyfraniadau eraill) yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y Cyfrif Cynhwysfawr Incwm a Gwariant pan fo'r amodau gofynnol wedi cael eu bodloni. Yna, trosglwyddir yr incwm i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf neu'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio, yn ddibynnol ar p'un y bydd wedi ei ddefnyddio. Yn ei hanfod, defnyddir Grantiau'r Llywodraeth a ddyfernir ar gyfer cynlluniau cyfalaf fel ffynhonnell arian ar gyfer y rhaglen gyfalaf.

15. **COSTAU PENSIYNAU**

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn sy'n cwrdd ag anghenion dau grŵp gwahanol o weithwyr. Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion penodol o ran tâl a gwasanaeth i'r aelodau. Y cynlluniau yw:-

(i) **Diffoddwyr Tân**

Dyma gynllun nad yw'n cael ei ariannu, sef nid oes asedau buddsoddi wedi eu casglu i gwrdd â'r ymrwymiadau o ran pensiynau. Rhaid creu arian gan yr Awdurdod i gwrdd â thaliadau pensiwn gwirioneddol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae cyfraniadau'r cyflogwr a'r gweithwyr yn seiliedig ar ganran y tâl pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth y Cynulliad, ac maent yn ddibynnol ar ailwerthusiad tair blynedd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y buddion sy'n daladwy a'r cyfraniadau a dderbyniwyd yn cael ei ateb gan grant gan Lywodraeth y Cynulliad. Newidiodd y Llywodraeth ei fecanwaith cyllido ar gyfer y cynllun yn 2007-2008, ac mae hynny wedi lliniaru pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd y bydd amrywiadau blynyddol ar drethdalwyr lleol drwy greu cyfrif cronfa bensiwn.

(ii) **Staff Gwasanaethau Llywodraeth Leol a'r Ystafell Reoli**

Mae'r gweithwyr hyn yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Dyma gynllun a ariennir, gyda'r pensiwn wedi ei dalu o'r cronfeydd buddsoddi gwaelodol a reolir gan Gronfa Bensiwn Clwyd. Mae costau'r pensiynau a godir ar gyfrif yr Awdurdod mewn perthynas â'i weithwyr yn cyfateb i'r cyfraniadau a delir i'r cynllun pensiwn a ariennir ar gyfer y gweithwyr hyn. Mae rhagor o gostau'n codi mewn perthynas â rhai pensiynau a delir i weithwyr sy'n ymddeol ar sail heb ei ariannu.

Pennwyd y costau pensiwn hyn ar sail cyfraddau cyfraniad grisiog sy'n cael eu gosod i gwrdd â 100% o ymrwymiadau'r Gronfa yn unol â rheoliadau perthnasol y Llywodraeth.

(iii) **Gwasanaeth Archwilio Mewnol (IAS) 19**

Mae Gwasanaeth IAS 19 yn rhagnodi datgelu ymrwymiadau tymor hir a nodwyd mewn perthynas â'r costau pensiynau. Mae cyfrifon yr Awdurdod wedi eu haddasu i gyd-fynd â'r Cod, ac mae hynny'n darparu nad yw'r addasiadau a wnaed i weithredu Gwasanaeth IAS 19 yn cael unrhyw effaith ar y Cyfraniadau a wneir gan yr Awdurdodau Lleol. I gyd-fynd ag IAS 19, mae'r enillion neu'r colledion actiwaraidd ar yr ymrwymiad pensiwn sy'n weddill yn cael eu codi'n uniongyrchol ar y Gronfa Bensiynau.

Wrth asesu'r ymrwymiadau o ran buddion ymddeoliadau ar 31 Mawrth 2010 ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2009-2010, roedd y Cod yn gofyn i'r actiwari ddefnyddio cyfradd ostyngiad o 3.9% real (5.8% gwirioneddol), a defnyddiwyd cyfradd yn seiliedig ar adenillion ar fond corfforaethol o ansawdd uchel o arian a chyfnod cyfwerth ag ymrwymiadau'r cynllun. Ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2010-2011, mae'r actiwari wedi cynghori bod cyfradd o 3% real (5.7% gwirioneddol) yn briodol.

16. **DYRANNU COSTAU GWEINYDDOL CANOLOG**

Mae'r gwasanaethau gweinyddol canolog mawr, megis Cyllid, Rheoli Eiddo a'r Gefnogaeth Gyfreithiol a Gweinyddol yn cael eu prynu gan Awdurdodau Lleol eraill. Mae'r costau hyn, a chostau gweinyddiaeth ganolog yn yr Awdurdod Tân, wedi cael eu dyrannu i wasanaethau rheng-flaen yn unol â Datganiad CIPFA ar Gyfrifydda Gorbenion a Chod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau.

17. **DEBYDWYR A CHREDYDWYR**

Cyflwynir cyfrifon yr Awdurdod ar sail croniad yn unol â'r Cod; sef bod symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod, neu ganddo, yn ystod y flwyddyn yn cael eu cynnwys yn y cyfrif refeniw p'un ai yw'r arian wedi dderbyn mewn gwirionedd ynteu i'w dalu yn y flwyddyn. Mae unrhyw groniadau gwariant cyfalaf perthnasol a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn, a'r holl wariant cyfalaf, gan gynnwys croniadau, wedi cael eu hariannu.

18. **BUDDSODDIADAU**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rheoli cronfeydd gwarged ar ran yr Awdurdod. Gwneir buddsoddiadau'n uniongyrchol ar ran yr Awdurdod, yn benodol mewn cyfrif galw llog uchel, a chaiff cronfeydd gwarged eraill eu buddsoddi ar y farchnad arian fel rhan o weithgarwch rheoli'r trysorlys yng Nghonwy. Dangosir trafodion llog ar wahân o fewn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Dangosir y buddsoddiadau yn y Fantolen fel cost ynghyd â llog cronedig. Dim ond buddsoddiadau sydd wedi cael eu buddsoddi am fwy na thri mis a ddangosir dan y categori buddsoddiad. Rhoddir rhagor o fanylion mewn nodyn i'r Datganiad Ariannol Craidd.

19. **ARIAN A CHYFWERTH AG ARIAN**

Arian a chyfwerth am arian yw arian mewn llaw ac adnau gyda sefydliadau ariannol sy'n daladwy heb gost ar rybudd o ddim mwy na 24 awr, a buddsoddiadau sy'n aeddfedu ymhen tri mis neu lai o ddyddiad caffael, ac maent i'w troi'n symiau hysbys o arian gyda risg ansylweddol o newid gwerth.

.

20. **DERBYNIADAU CYFALAF**

Bydd derbyniadau asedau y cafwyd gwared arnynt yn cael eu dal fel Derbyniadau Cyfalaf i'w Defnyddio yn y gronfa Derbyniadau Cyfalaf i'w Defnyddio hyd oni fyddant yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

21. **TRETH AR WERTH**

Mae TAW yn cael ei gynnwys yn y cyfrifon incwm a gwariant, p'un ai yw o natur gyfalaf neu refeniw, dim ond i'r graddau y mae'n anadferadwy.

22. **OFFERYNNAU ARIANNOL**

Y diffiniad o Offeryn Ariannol yw 'unrhyw gytundeb sy'n achosi ased ariannol un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti un arall'. Bydd ymrwymiadau ariannol (benthyciadau) ac asedau ariannol (buddsoddiadau) yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg, ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Bydd y llog blynyddol a delir ac a dderbynnir yn y cyfrif Incwm a Gwariant yn seiliedig ar swm gludo'r benthyciad neu'r buddsoddiad wedi ei luosogi gan gyfradd effeithiol y llog ar gyfer yr offeryn. O ran pob benthyciad a buddsoddiad sydd gan yr Awdurdod, y symiau sydd yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n aros ynghyd ag unrhyw log cronedig am y flwyddyn.

23. **GWALLAU**

Mae pob gwall perthnasol wedi ei gywiro am yn ôl. Bydd gwallau neu gamddatganiadau yn berthnasol os gallant, naill ai yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar y penderfyniadau economaidd y bydd defnyddwyr yn eu gwneud yn seiliedig ar sail y datganiadau ariannol. Datgelwyd natur a swm unrhyw newid sy'n cael effaith yn y cyfnod cyfredol neu mae disgwyl iddo effeithio mewn cyfnodau i ddod (ac eithrio pan fo hynny'n anymarferol).

## 24. **YMRWYMIADAU AMODOL**

Bydd ymrwymiad amodol yn codi pan fo digwyddiad wedi bod sy'n gwneud ymrwymiad posib ar yr Awdurdod na chaiff ei gadarnhau ond trwy fodolaeth, neu fel arall, rywbeth nad yw'n llwyr o fewn rheolaeth yr Awdurdod. Bydd ymrwymiadau amodol eraill yn codi mewn amgylchiadau pan fyddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu na ellir mesur swm yr ymrwymiad yn ddibynadwy.

Ni fydd ymrwymiadau amodol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, ond yn cael eu datgelu mewn nodyn yn y cyfrifon.

# DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

## DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

| **Symudiad yn y Datganiad Cronfeydd wrth gefn ar gyfer blynyddoedd yn diweddu 31 Mawrth 2010 & 2011** | **Nodyn** | **Balans Cronfa Gyffredinol** | **Cronfeydd wrth gefn grant ac a glustnodwyd** | **Cronfa wrth gefn talebau cyfalaf** | **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn gellid ei defnyddio** | **Cronfeydd wrth Gefn annefnyddiol** | **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2009** | | **0** | **347** | **0** | **347** | **-156,220** | **-155,873** |
| **Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn yn ystod 2009/10** | | | | | | | |
| Gweddill neu (Diffyg) ar y Darpariaeth o Wasanaethau | | -10,662 | 0 | 0 | -10,662 | 0 | -10,662 |
| Incwm a Gwariant arall cynhwysfawr | | 0 | 0 | 0 | 0 | -41,892 | -41,892 |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **-10,662** | **0** | **0** | **-10,662** | **-41,892** | **-52,554** |
| Cyweiriadau rhwng sail cyfrifyddu a sail cronfa o dan y rheoliadau | 4 | 11,034 | 0 | -13 | 11,021 | -11,021 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn trosi i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd** | 16 | 372 | 0 | -13 | 359 | -52,913 | -52,554 |
| Cyweiriad | | | | | | 1 | 1 |
| Trosiannau i/(o) Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd | 5 | 46 | -59 | 13 | 0 | 0 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2009/10** | | **418** | **-59** | **0** | **359** | **-52,912** | **-52,553** |
| **Balans 31 Mawrth 2010** | | **418** | **288** | **0** | **706** | **-209,132** | **-208,426** |

| **Symudiad yn Natganiad Cronfeydd wrth Gefn** | **Nodyn** | **Balans Cronfa Gyffredinol** | **Cronfeydd wrth gefn grant ac a glustnodwyd** | **Cronfa wrth gefn talebau cyfalaf** | **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn gellid ei defnyddio** | **Cronfeydd wrth Gefn annefnyddiol** | **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2010** | | **418** | **288** | **0** | **706** | **-209,132** | **-208,426** |
| **Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn yn ystod 2010/11** | | | | | | | |
| Gweddill neu (Diffyg) ar y Darpariaeth o Wasanaethau | | 11,272 | 0 | 0 | 11,272 | | 11,272 |
| Incwm a Gwariant arall cynhwysfawr | | 0 | 0 | 0 | 0 | 17,470 | 17,470 |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **11,272** | **0** | **0** | **11,272** | **17,470** | **28,742** |
| Cyweiriadau rhwng sail cyfrifyddu a sail cronfa o dan y rheoliadau | 4 | -10,820 | 0 | -39 | -10,859 | 10,859 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn trosi i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd** | | | | | | | |
| | 16 | 452 | 0 | -39 | 413 | 28,329 | 28,742 |
| Cyweiriad | | | | 1 | 1 | | |
| Trosiannau i/(o) Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd | 5 | -229 | 191 | 38 | 0 | 0 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2010/11** | | **223** | **191** | **0** | **414** | **28,329** | **28,742** |
| **Balans 31 March 2011** | | **641** | **479** | **0** | **1,120** | **-180,803** | **-179,684** |

# Y CYFRIF CYNHWYSFAWR INCWM A GWARIANT

| 2009/10 | | | | | 2010/11 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** | | **Nodyn** | **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 1,985 | -124 | 1,861 | Diogelwch Tân Cymunedol - Arolygiad ac Ardystiad | | 2,373 | -42 | 2,331 |
| 3,783 | 0 | 3,783 | Diogelwch Tân Cymunedol - Atal ac Addysgu | | 4,523 | 0 | 4,523 |
| 20,709 | -371 | 20,338 | Diffodd Tân - Ymateb Gweithredol | | 23,274 | -139 | 23,135 |
| 3,234 | 0 | 3,234 | Diffodd Tân - Cyfathrebu a throi allan | | 3,521 | 0 | 3,521 |
| 194 | 0 | 194 | Diffodd Tân - Diogelu Cyflenwadau dwr | | 175 | 0 | 175 |
| 215 | 0 | 215 | Costau Craidd Corfforaethol a Democrataidd | | 194 | 0 | 194 |
| 118 | 0 | 118 | Costau heb eu dosbarthu | **2.2** | -24,043 | 0 | -24,043 |
| | | | | | | | |
| **30,238** | **-495** | **29,743** | **Cost Gwasanaethau** | | **10,017** | **-181** | **9,836** |
| | | | | | | | |
| 12,478 | -540 | 11,938 | Gwariant Gweithredu Arall | **6** | 12,744 | -2,113 | 10,631 |
| 320 | -27 | 293 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | **7** | 389 | -35 | 354 |
| 0 | -31,312 | -31,312 | Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol | **8** | 0 | -32,093 | -32,093 |
| | | | | | | | |
| | | **10,662** | **(Gweddill) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth o Wasanaethau** | | | | **-11,272** |
| | | | | | | | |
| | | -2,978 | Gweddill neu ddiffyg ar ailbrisio eiddo ac asedau offer & Equipment Assets | | | | -314 |
| | | 44,870 | Union Enillion/Golledion ar Asedau/ Pensiwn | | | | -17,156 |
| | | | | | | | |
| | | **41,892** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **-17,470** |
| | | | | | | | |
| | | **52,554** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **-28,742** |

# Y FANTOLEN

| 1 Ebrill 2009 | 31 Mawrth 2010 | | Nodiadau | 31 Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | | | £'000 |
| 31,106 | 32,211 | Eiddo ac Offer | 9 | 36,384 |
| 28 | 19 | Asedau nas ellid eu cyffwrdd | 9 | 9 |
| **31,134** | **32,230** | **Asedau Hir Dymor** | | **36,393** |
| 0 | 1,001 | Buddsoddiadau Tymor byr | 10 | 0 |
| 336 | 354 | Rhestr Eiddo | 11 | 275 |
| 2,690 | 1,815 | Dyledwyr Tymor Byr | 12 | 1,157 |
| 1,313 | 2,032 | Arian a chyfwerth ariannol | 13 | 3,303 |
| **4,339** | **5,202** | **Asedau Cyfredol** | | **4,735** |
| 4,448 | 7,220 | Benthyca tymor byr | 10 | 9,126 |
| 3,379 | 3,320 | Credydwyr tymor byr | 14 | 3,765 |
| 100 | 507 | Darpariaethau | 15 | 482 |
| **7,927** | **11,047** | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | **13,373** |
| 171,690 | 225,467 | Rhwymedigaeth Pensiwn | 17 | 196,832 |
| 416 | 140 | Darpariaethau | 15 | 0 |
| 10,857 | 8,891 | Benthyca Hir Dymor | 10 | 10,391 |
| 456 | 313 | Rhwymedigaethau hir dymor eraill | 28 | 216 |
| **183,419** | **234,811** | **Rhwymedigaethau Hir Dymor** | | **207,439** |
| **-155,873** | **-208,426** | **Asedau Net** | | **-179,684** |
| 347 | 706 | Cronfeydd wrth Gefn gellid defnyddio | 16 | 1,120 |
| -156,220 | -209,132 | Cronfeydd wrth Gefn nas ellid defnyddio | 17 | -180,804 |
| **-155,873** | **-208,426** | **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn** | | **-179,684** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN

| 2009/10 | | Nodiadau | 2010/11 |
|---|---|---|---|
| £'000 | | | £'000 |
| 10,662 | Gweddill/Diffyg Net ar Ddarpariaeth o Wasanaethau | | -11,272 |
| -13,172 | Addasiadau i'r Net (Gweddill) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth o Wasanaethau ar gyfer Symudiadau di-ariannol | | 8,595 |
| -291 | Addasiadau i Eitemau wedi'u cynnwys yn y net (Gweddill) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth o Wasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu | | -260 |
| -2,801 | Llif Arian Net o Weithgareddau gweithredu | 18 | -2,937 |
| 1,625 | Gweithgareddau Buddsoddi | 19 | 5,766 |
| 457 | Gweithgareddau ariannu | 20 | -4,100 |
| -719 | Net (Cynnydd) neu Ostyngiad mewn arian neu gyfwerth ariannol | | -1,271 |
| **-1,313** | **arian a chyfwerth ariannol ar ddechrau'r cyfnod adroddi** | | **-2,032** |
| **-2,032** | **Arian a chyfwerth ariannol ar ddiwedd y cyfnod adroddi** | 13 | **-3,303** |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Dyma'r tro cyntaf i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (Safonau IFRS). Er mwyn gallu cymharu â'r blynyddoedd blaenorol, mae'r datganiadau trosi yn dangos addasiadau blwyddyn flaenorol wedi cael eu cynnwys fel Atodiad i'r cyfrifon.

Ni chaniateid i'r Awdurdod ddal cronfeydd wrth gefn fel ar 1 Ebrill 2009, fodd bynnag oherwydd y newid o UK GAAP i Safonau IFRS, y gofyniad newydd yw bod unrhyw grantiau sydd wedi cael eu derbyn gan yr Awdurdod ar gyfer cynlluniau penodol, ond nad ydynt wedi cael eu defnyddio o fewn y flwyddyn, yn cael eu dangos dan Gronfeydd i'w Defnyddio, lle o'r blaen byddent wedi cael eu trin fel Derbyniadau Blaenswm dan yr Ymrwymiadau Cyfredol. Mae'r cyfrifon wedi eu haddasu i adlewyrchu'r newid o 1 Ebrill 2009 er mwyn cydymffurfio â'r rheoliad cyfrifyddu newydd ac i ddarparu cymhariaeth deg.

## 1. Rhagdybiaethau a wnaed ynglŷn â'r Dyfodol, a Ffynonellau Pwysig Eraill Ansicrwydd Amcangyfrif

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigyrau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan yr Awdurdod ynglŷn â'r dyfodol neu sydd fel arall yn ansicr. Gwneir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, y tueddiadau cyfredol, a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu'r balansau gyda sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

| Eitem | Ansicrwydd | Efaith os yw'r Canlyniadau Gwirioneddol yn wahanol i'r Tybiaethau |
|---|---|---|
| YMRWYMIAD PENSIYNAU | Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o farnau cymhleth sy'n ymwneud â chyfradd y gostyngiad a ddefnyddiwyd, y gyfradd y rhagamcenir y bydd cyflogau'n codi, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marw, a'r adenillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiynau. Mae cwmni o actiwarïaid ymgynghorol wedi eu cyflogi i ddarparu cyngor arbenigol ynglŷn â'r rhagdybiaethau i'w defnyddio. | Fe wnaeth y gyllideb frys newid y cynnydd mewn pensiynau i gyd-fynd â Mynegai'r CPI yn hytrach na'r RPI. Mae hyn wedi golygu dyfodiad credyd gwasanaeth blaenorol sy'n lleihau'r ymrwymiad net yn y fantolen. Mae'r actiwarïaid yn disgwyl i ddyfodiad Mynegai'r CPI leihau'r taliadau pensiwn, ond gallai amcangyfrifon cyfredol y CPI o'i gymharu â'r RPI fod yn anghywir. |

Fel ar 31 Mawrth 2011, y brif eitem ym Mantolen yr Awdurdod, y mae iddi risg sylweddol o addasiad pwysig yn y flwyddyn ariannol sy'n dod, yw:-

## 2. Eitemau Pwysig Incwm a Gwariant

### 2.1 Gwariant Cyfalaf a godir ar Refeniw

Mae gan y rhaglen gyfalaf ddarpariaeth ar gyfer adeiladu Gorsaf Dân newydd ar gyfer ardal Wrecsam, ac ymchwiliwyd i nifer o safleoedd ynghylch eu haddasrwydd. Ni ellir bellach gyfateb y ffïoedd a gafwyd ar y ddau safle cyntaf i brosiect sy'n mynd rhagddo, ac felly rhaid eu trin fel ffïoedd cyfalaf ofer a'u codi ar y cyfrif refeniw. Y gwariant i'w ddileu ar y refeniw yw £404k.

### 2.2 Ymrwymiad Pensiynau

Yn 2010/11, roedd gostyngiad anghymesur yn ngwerth y gronfa o £225m i £197m, a hynny oherwydd adenillion ased cadarnhaol a disgwyliadau chwyddiant tymor hir yn disgyn, ynghyd â'r cynnydd mewn pensiynau o'r RPI i CPI.
Cynhwysir y gostyngiad hwn ar wyneb y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant o fewn gwariant am gostau annosbarthedig, £24.056m credyd.

## 3. Digwyddiadau wedi Dyddiad y Fantolen

Awdurdodwyd y Datganiad o Gyfrifon i'w gyhoeddi gan Drysorydd yr Awdurdod Tân. Nid yw digwyddiadau sy'n dilyn y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau. Lle bo digwyddiadau cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2011, mae'r ffigurau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau wedi cael eu haddasu ymhob agwedd bwysig er mwyn adlewyrchu ardrawiad yr wybodaeth hon.

## 4. Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Sail Ariannu dan Reoliadau

Mae'r nodyn hwn yn rhestru'r addasiadau a wnaed i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn y flwyddyn, a hynny yn unol â'r arfer cyfrifyddu priodol i'r adnoddau a enwir gan y darpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i'r Awdurdod ar gyfer cwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

| 2010/11 | ronfeydd wrth gefn gellid defnyddi | | | | wrth gefn nas ellid |
|---|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa wrth Gefn Gyffredinol | Cronfa wrth Gefn Cyfalaf wedi'i glustnodi | Cronfa wrth Gefn Talebion Cyfalaf | Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn gellid defnyddio | Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn nas ellid defnyddio |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Addasiadau'n bennaf yn ymwneud â Chyfrif Cyfalaf wedi'i addasu** | | | | | |
| **Gwrthdroi eitemau wedi'u debydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | | |
| Costau ar gyfer dibrisiad a nam ar asedau anghyfredol | -3,598 | 0 | 0 | -3,598 | 3,598 |
| Ailbrisio colledion ar Eiddo ac Offer | | | | | |
| Amorteiddiad Asedau Anghyffwrddadwy | -9 | | | -9 | 9 |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wnaed | 251 | 0 | 0 | 251 | -251 |
| Symudiad yn y Cyfrif Asedau a roddwyd | 1,135 | 0 | 0 | 1,135 | -1,135 |
| Addasiad | 1 | 0 | 0 | 1 | -1 |
| **Cynnwys yr eitemau heb eu debydu na'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | | |
| Darpariaeth Statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf | 1,544 | 0 | 0 | 1,544 | -1,544 |
| **Addasiadau'n bennaf yn ymwuend â Chronfa wrth Gefn Talebau Cyfalaf** | | | | | |
| Trosglwyddo elw gwerthiant ariannol a gredydwyd fel rhan o'r gwerthiant ennill/colli i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Defnydd o gronfa wrth gefn talebau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newyddUse of Capital | 0 | 0 | 39 | 39 | -39 |
| Cyfraniad o'r cronfa wrth gefn talebau cyfalaf tuag at gostau gweinyddol o werthiant asedau anghyfredol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Addasiad yn bennaf yn ymwneud a'r Cronfa wrth Gefn Pensiynau** | | | | | |
| Gwrthdroi eitemau'n berthnasol i fuddio ymddeol wedi'u debydu neu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 30) | 8,139 | 0 | 0 | 8,139 | -8,139 |
| cyfraniadau pensiwn gan y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr a dalwyd yn ystod y flwyddyn | 3,340 | 0 | 0 | 3,340 | -3,340 |
| **Addasiad yn bennaf yn ymwneud a'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig:** | | | | | |
| y swm a dalwyd o'r ariannu swyddogion i'r Datganiad Incwm a Gwariant yn wahanol ar sail cronni'r arian oedd yn daladwy yn y flwyddyn yn unol ag anghenion statudol. | 17 | 0 | 0 | 17 | -17 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | 10,820 | 0 | 39 | 10,859 | -10,859 |

